

Ffermio yn ystod y Pandemig

Y mae'r angen i gadw'n iach wedi ychwanegu at y gofid a'r ynysu oherwydd Covid-19. Wrth i'r cynhaeaf nesau, y mae Daphne a Peter yn adodd o'u fferm yn Narberth

Dyna ble oedden ni, yn gobeithio cael gwyliau eleni ac fe ymosododd Covid-19 ar y byd. Roedd adroddiadau llawn gofid a phryder yn y cyfryngau. Edrychon ni o'n ffermdy cysurus gyda gofid ac anghrediniaeth cynyddol wrth l bobl ymgynnull mewn digwyddiadau mawr tra ein bod ni'n cau pethau l lawr. Gobeithio am wyliau gyda'n gilydd yw'r un beth a wnawn; nid yw'r ffermwr wedi gadael y fferm dros nos ers sawl blwyddyn. Yr ydym yn gyfarwydd â bod yn ynysig ond roedd hyn gofyn am lefel uwch o ynysu.



Yr oedd y cloi yn golygu ein bod yn gwneud diwrnod arferol o waith mewn amgylchiadau anarferol, gyda gofidiau ychwanegol am iechyd ein gweithwyr. A fydden nhw'n gallu dod i'r gwaith? A fydden nhw'n cael eu stopio gan yr heddlu (Do)? A fydden nhw'n ddiogel? Anawsterau pellhau cymdeithasol wrth ddelio ag anifeiliaid. Cymerodd y profi TB, fel arfer yn wythnos o waith, fis i'w orffen, gyda mesurau ychwanegol. Roedd rhaid archebu meddyginiaeth ymlaen llaw a dibynnu ar gludiant ac ewyllys da cymaint o gwmniau amaethyddol a'u gweithlu. Gofid di-ddiwedd, ac yn bwysicach fyth a fyddai'r tancer llaeth yn dod bob dydd i gasglu'r llaeth? Roedden ni'n lwcus gyda'n prynwr llaeth ond roedd llawer o'r ffermydd yn llai lwcus, gyda thaliadau yn cael eu heffeithio gan achosi gofid enfawr i lawer, effeithio ar fusnesau ac achosi straen ariannol.

'Cadwch yn llonydd a chadwch i fynd'.. Wnaethon ni ddim o hyd. Roedd y gofid am les teulu ym mhell i ffwrdd a ffrindiau, rhai yn hunan-ynysu, eraill yn gweithio fel gweithwyr allweddol, methu mynd atynt yn gorfforol i'w helpu, ceisio cadw'n iach ein hunain, yn cael effaith.

Crewyd cynlluniau argyfwng i alluogi'r fferm i barhau pe bai'r ffermwr yn sâl a methu gweithio, posiblwydd brawychus ar y gorau.

Diolch, na theimlwyd o'r blaen, am y We a thechnoleg a'r dewis i gyfathrebu drwyddo, hyd yn oed ddysgu ein wyrion drwy alwad fideo.

Nid yw'r Coronafeirws wedi effeithio'n uniongyrchol ar ein cynhaeaf, mae'r gwaith yn parhau ac mae'r tywydd wedi bod yn garedig yn 2020 gyda chnydau silwair da. Mae mwy o ofid gan y rhai sy'n tyfu cnydau bwydydd, yn enwedig prinder gweithwyr i gasglu, am sawl rheswm.

Fe sylwyd bod y llwybrau cerdded yn tyfu'n wyllt gyda nifer llai o gerddwyr, efallai oherwydd y cyfyngder pum milltir. Y mae'r eglwys fach, tu fas i ddrws y gegin ar gau er bod y tir yn cael ei gynnal a'i gadw. Gellir gweld ambell ymwelydd yn ceisio agor y drws er bod arwydd am ei gau ar yr handlen. Clywsom na fydd gwasanaeth Cynhaeaf yn debygol eleni. Tybed a ellid cynnal un yn yr awyr agored yn edrych dros y caeau ac yn cwmpasu'r tywydd y buom mor ddibynnol arno eleni.

Amser i hau ac amser i gynaeafu, ac nid dim ond yr hyn a blannwyd yn y cae. Beth bynnag sy'n digwydd yn y pandemig, mae'r borfa'n dal i dyfu ac mae gobaith yn dal i ffynnu. Mae'r gwaith i fwydo pobl yn parhau.

Roeddem y teimlo bendith o'i gymharu â llawer yn ystod y clo a diolchwn i Dduw am ein hamddiffyn. Teimlwn dros y rhai a gollodd eu ceraint. Os Duw a'i mynn, mae amser gwell i ddod.

Credyd llun: Robert Bye o Unsplash